Cyngor Cymuned Bontnewydd
CYFARFODYDD BLYNYDDOL A MISOL
Mai 19eg 2011; 7 o'r gloch, Y Ganolfan, Bontnewydd

CYFARFOD BLYNYDDOL

Presennol : Cynghorydd Dafydd Iwan, Cadeirydd, Cynghorydd Marian Roberts, Erddyn Davies, Emyr Williams a Geraint Jones. Cynghorydd Sir, Chris Hughes a Mr Bryn Hughes, y Clerc

A. CROESO'R CADEIRYDD
Cafwyd gair o groeso i bawb gan y Cadeirydd, Dafydd Iwan a diolchodd i'r aelodau â'r clerc am eu cyd-weithrediad dros y dair blynedd y bu'n Gadeirydd.

B. DATGAN DIDDORDEB
Neb yn datgan diddordeb.

C. YMDDIHEURIADAU
Cafwyd ymddiheuriadau gan Cynghorydd Catrin Roberts, Cyril Owen, Ifor Williams, Hilma Edwards a Rhys Pugh.

CH. CADARNHAU COFNODION Y CYFARFOD BLYNYDDOL DIWETHAF:
Cafwyd y Cofnodion yn gywir trwy gynnig gan Cynghorydd Erddyn Davies, a gafodd ei eilio gan Cynghorydd Geraint Jones. Dim gwrthwynebiad.

D. ETHOL CADEIRYDD 2011/12
Fe etholwyd Cynghorydd Erddyn Davies yn Gadeirydd drwy gynnig gan Cynghorydd Geraint Jones, a gafodd ei eilio gan Cynghorydd Emyr Williams. Fe dderbyniodd y Cynghorydd Erddyn Davies y swyddogaeth a fe adawodd y Cynghorydd Dafydd Iwan y sedd i'r Cadeirydd newydd. Cafwyd gair o ddiolch gan y Cadeirydd i'r Cynghorydd Dafydd Iwan am ei waith ardderchog dros y dair blynedd y bu'n Gadeirydd. Cafwyd geiriau o ddiolch i'r Cynghorydd Dafydd Iwan gan Cynghoyrdd Geraint Jones a gan y clerc, Bryn Hughes.

DD. ETHOL IS-GADEIRYDD 2011/12
Fe etholwyd Cynghorydd Marian Roberts yn Is-Gadeirydd drwy gynnig gan Cynghorydd Dafydd Iwan, a gafodd ei eilio gan Cynghorydd Geraint Jones. Fe dderbyniodd y Cynghorydd Marian Roberts y swyddogaeth.

E. SEDD WAG
Gofynnwyd i'r clerc nodi yn y Cofnodion y bod sedd wag ar y Cyngor Cymuned ac i dynnu sylw'r darllennydd i'r ffaith. Os oes gan unrhyw berson diddordeb dylent gysylltu â'r clerc yn y lle cyntaf drwy ffonio 01286 831861 ar ôl 6 y.h.

F. CWESTIYNAU O'R LLAWR
Nid oedd unrhyw gwestiynnau o'r llawr.

CYFARFOD MISOL

Fe ddechreuwyd y cyfarfod misol yn syth ar ôl y cyfarfod blynyddol am 7.20 y.h.

DATGAN DIDDORDEB / BUDDIANT PERSONOL
Datganodd y clerc buddiant personol ar eitem 5.3.1 a fe adawodd y cyfarfod yn ystod y drafodaeth. Fe ddatganodd y Cynghorydd Dafydd Iwan ddiddordeb yn eitem 4(3) ond nid oedd yn gysylltiad a olygai iddo dynnu nôl rhag ystyried y mater.

CADARNHAU COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF
Cafwyd y Cofnodion yn gywir trwy gynnig gan Cynghorydd Geraint Jones, a gafodd ei eilio gan Cynghorydd Dafydd Iwan. Dim gwrthwynebiad.

EITEM 4 Y RHAGLEN -MATERION YN CODI O'R COFNODION

(1) Y llain tir ger Glan Beuno

Cadarnhaodd y clerc ei fod wedi ysgrifennu llythyr at Mr Richard Roberts, Cartrefi Cymunedol Gwynedd, oedd yn ymgorffori'r mater yma gyda mater cyflwr y modurdai yn Llwyn Beuno, cyfeirnod post y llythyr yw 11-82-430 a'i fod wedi gyrru copi i'r Cynghorydd Geraint Jones â'r Cynghorydd Sir, Chris Hughes. **Penderfyniad : Disgwyl am ymateb gan Mr Richard Roberts.**

(2) Parc y Plwyf, Llanfaglan

Cadarnhaodd y clerc ei fod am ddosbarthu'r holiaduron o fewn pythefnos nesaf. Fe ofynodd Cynghorydd Emyr Williams sut oedd y derbynnydd am yrru'r holidaur yn ôl i'r clerc. Esboniodd y clerc bod amlen wedi ei gyfeirio â'r post wedi ei dalu gyda pob un o'r holiaduron. **Penderfyniad : Derbyn ymateb y clerc.**

(3) Cais ariannol 'Hwyl y Bont 2011' : cynllun busnes

Cadarnhaodd y clerc ei fod wedi derbyn cynllun busnes gan bwyllgor 'Hwyl y Bont' ac oedd y cynllun busnes yn rhagdybio incwm o £7950 yn erbyn gwariant o £5164, yn gadael £2786 yn weddill ar gyfer elusennau a chymdeithasau lleol. **Penderfyniad : Rhyddhau'r siec o £350 i Hwyl y Bont.**

(4) Arwyddion rhybudd : Taclo problemau baw cŵn

Cadarnhaodd y clerc ei fod wedi ysgrifennu llythyr at Mr Peter Simpson, Rheolwr Gwasanaethau Stryd, Cyngor Gwynedd, oedd yn gofyn adnabod ardal Llwyn Beuno fel rhan o'r gymuned ble mae'r broblem yn waeth na llefydd eraill ac yn gofyn iddo drefnu gosod arwyddion yno. Cyfeirnod post y llythyr yw 11-85-433. **Penderfyniad : Disgwyl am ymateb gan Mr Peter Simpson.**

(5) Cyflwr Modurdai Llwyn Beuno

Gweler eitem 4 (1). Fe gadarnhaodd y Cynghorydd Sir, Chris Hughes, ei fod yn delio â'r mater yn ogystal. **Penderfyniad : Disgwyl am ymateb gan Mr Richard Roberts.**

EITEM 5 Y RHAGLEN - MATERION ARIANNOL

CYFRIFON 2009-2010 : Balans ddiwedd Ebrill 2011 yn £17,188.27

EITEM 5.3.1 CYFLOGAETH Y CLERC : ARWEINIAD CThEM YNGLYN Y DRINIAETH GYWIR O DRETH A CHYFRANIADAU YSWIRIANT GWLADOL CLERCOD PLWYF.

Gofynnwyd i'r clerc rhoi esboniad cryno o'r goblygiadau i'r Cyngor Cymuned oherwydd y newid yn y drefn cyflogi'r clerc yn unol ag arweiniad CThEM. Y Prof bwyntiau oedd :

(a) y byddai'n rhaid i'r Cyngor fabwysiadu cynllun TWE (Treth Wrth Ennill) a na chant gyflogi'r clerc ar sail hunan gyflogaeth. O ganlyniad y bydd rhaid cofrestru'r Cyngor Cymuned fel cyflogwr. (b) Mae'r sustem TWE mae'r clerc wedi ei lawr-llwytho o wefan CThEM yn gweithio ar sail cyflog misol ac nid oes modd i'r sustem ymdopi a chyflog chwarterol. (c) Mae'r drefn yn golygu rhagor o waith i'r clerc ac mae yn barod yn gweithio llawer mwy o oriau na'r oriau y mae'n gyflogedig. **Yna fe adawodd y clerc y cyfarfod tra bu'r aelodau yn trafod y mater.**

Penderfyniad :

(a) Mae'r Cyngor Cymuned am fabwysiadu cynllun TWE a chofrestru fel cyflogwr. Mae'r clerc i wneud y trefniadau.

(b) Mae'r clerc i'w dalu yn fisol i gychwyn ar 1 Gorffennaf 2011.

(c) Mae'r swm o £500 y flwyddyn a delir i'r clerc at gynnal swyddfa yn ei gartref i'w godi i £540 y flwyddyn, i gychwyn ar 1 Gorffennaf 2011, sef £45 y mis.

(ch) Mae oriau cyflogedig y clerc i'w gynyddu o 19.5 awr y mis i 21 awr y mis, i gychwyn ar 1 Gorffennaf 2011.

EITEM 5.3.2 ARCHWILIO CYFRIFON BLYNYDDOL : NEWIDIADAU YN DILYN RHEOLIADAU CYFRIFON AC ARCHWILIO 2010
Gofynnwyd i'r clerc rhoi esboniad cryno o'r drefn newydd :

CEISIADAU CYNLLUNIO
Nid oedd unrhyw geisiadau cynllunio i'w hystyried.

EITEM 8 Y RHAGLEN : MATERION ERAILL
CYSGODFAN BWS GER SIOP SGLODION, BONTNEWYDD :
Datganodd y clerc ei fod wedi cyfarfod gyda Wyn y glanhawr ar y Sul tra yr oedd yn ei lanhau. Eglurodd bod y gysgodfan mewn cyflwr bler oherwydd y tyllau yn y perspecs oherwydd fandaliaeth. Mae'r gysgodfan wedi ei lanhau eto, gyda'r perspecs wedi ei lanhau'n drylwyr. Yr unig ddewis sydd gan y Cyngor Cymuned yw :
(a) Glanhau'r perspecs yn fwy rheolaidd gyda'r goblygiadau i'r plwyfolion oherwydd y cynnydd yn y costau cynnal a chadw.
(b) Archebu paneli newydd mewn dur di-staen sydd tua £300 yr un.
(c) Archebu paneli newydd perspecs newydd sydd tua £150 yr un.
Penderfyniad : Gweld pa mor hir bydd y gysgodfan yn parhau'n lân ac ystyried y mater ymhellach.
CYFLWR Y GARREG DYWODFAEN AR Y BONT DROS YR AFON GWYRFAI GER Y NEWBOROUGH ARMS, BONTNEWYDD :
Cafodd y Cynghorydd Dafydd Iwan lythyr gan Mr Clifford Jones yn tynnu sylw'r Cyngor i gyflwr y garreg dywodfaen sydd ar y bont dros yr afon Gwyrfai ac yn dinodi dyddiad agor y bont. Mae'r garreg mewn cyflwr truenus ac angen ei ail gerfio.
Penderfyniad : Mae'r clerc i ysgrifennu at adrannau Ffyrdd a Chynllunio Cyngor Gwynedd i'w gwneud yn hysbys o gyflwr y garreg a gofyn a oes modd iddynt atgyweirio'r gofeb.
AIL EDRYCH AR ENWAU SAFLEOEDD LLEOL :
Datganodd y Cynghorydd Dafydd Iwan fod yna nifer o enwau ar safleoedd lleol yn y Gymraeg sydd yn anghywir ac angen eu cywiro. Cafwyd trafodaeth o'r esiamplau a gofynnodd y Cynghorydd Geraint Jones iddo baratoi rhestr o'r enwau.
Penderfyniad : Cynghorydd Dafydd Iwan i baratoi rhestr o'r enwau.

DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF : Nos Iau, Mehefin 16eg am 7 o'r gloch